making communications work
for everyone

# Niferoedd hysbysebion teledu a sut maent yn cael eu hamserlennu ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus

Cynigion i gael gwared ar reoleiddio

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 19 Ebrill 2023
Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 31 Mai 2023

# 1. Trosolwg

1.1 Mae sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu hariannu'n fasnachol yn y DU yn rhwym wrth reolau llymach na sianeli masnachol eraill o ran niferoedd hysbysebion teledu a sut maent yn cael eu hamserlennu. Mae'r ddogfen hon yn nodi dau opsiwn ar gyfer dileu rhai neu'r holl reolau llymach hyn, gan gadw cyfyngiadau ar gyfanswm yr hysbysebu y gellir ei ddangos ar y teledu. Rydym hefyd yn cynnig cadw'r cyfyngiadau ar nifer yr ymyriadau a ganiateir mewn ffilmiau, newyddion a rhaglenni plant.

1.2 Cyflwynwyd y gwahaniaeth mewn rheolau hysbysebu ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus a sianeli masnachol eraill yn 1991 gan ragflaenydd Ofcom, y Comisiwn Teledu Annibynnol (ITC). Roedd hyn ymhell cyn sefydlu teledu amlsianel a'r newid sylweddol o deledu sy'n cael ei ddarlledu i wylio ar-lein.

1.3 Mae'r rheolau presennol yn rhan o God Ofcom ar Amserlennu Hysbysebion Teledu (COSTA). Mae COSTA yn gosod cyfyngiadau ar faint o hysbysebion y gall pob sianel deledu eu dangos, ond mae hefyd yn cynnwys cyfyngiadau llymach sy'n berthnasol i'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn unig: Channel 3, Channel 4, Channel 5 a S4C. Dyluniodd yr ITC y rheolau ychwanegol i "ddiogelu ansawdd yr amgylchedd gwylio" ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r rheolau'n golygu bod sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fel ITV2, 5USA a Pick, yn gallu dangos mwy o hysbysebu ac mae ganddynt fwy o ryddid na sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wrth amserlennu egwyliau hysbysebu o ran hyd ac amlder.

1.4 Yn ein Hargymhellion i'r Llywodraeth, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaethom egluro pam roedd angen diwygio'r fframwaith rheoleiddio darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar frys er mwyn sicrhau ei ddyfodol ar gyfer oes ddigidol. Fel rhan o hyn, fe wnaethom nodi rheolau COSTA fel un o nifer o feysydd rheoleiddio pwysig a allai effeithio ar gynaliadwyedd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol. Roeddem yn cytuno â rhanddeiliaid bod angen ystyried y maes hwn ymhellach er mwyn sicrhau bod y rheolau'n dal yn effeithiol ac yn gymesur.

1.5 Ers i ni adolygu COSTA ddiwethaf yn 2011, mae'r byd darlledu wedi parhau i newid. Mae cynulleidfaoedd yn symud i ffwrdd oddi wrth wylio teledu'n bennaf ar sianeli darlledu llinol, ac erbyn hyn maent yn mwynhau amrywiaeth eang o wasanaethau tanysgrifio a gwasanaethau sy'n cael eu cefnogi gan hysbysebion a ddarlledir ac sydd ar gael ar-lein. Mae hyn wedi newid yn sylfaenol sut mae pobl yn gwylio cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus hefyd. Rydym hefyd yn cydnabod yr heriau masnachol sy'n wynebu'r sector darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fel costau cynhyrchu cynyddol, a'r gystadleuaeth gynyddol gan wasanaethau ffrydio byd-eang sy'n cael eu hariannu'n dda.

1.6 Yn y cyd-destun hwn y mae ein hadolygiad wedi ceisio canfod a yw'r rheolau hysbysebu llymach sy'n berthnasol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn ffordd deg a chymesur o gyflawni eu hamcan polisi gwreiddiol. Rydym hefyd yn ystyried ein dyletswydd gyfreithiol i beidio â chadw rheoleiddio diangen.

1.7 Ym mis Gorffennaf 2022, fe wnaethom gyhoeddi cais am dystiolaeth i ofyn am safbwyntiau cychwynnol gan randdeiliaid ar y dadleuon o blaid ac yn erbyn diwygio’r rheolau llymach hyn. Rydym wedi ystyried yn ofalus yr holl ymatebion i’n cais am dystiolaeth, ochr yn ochr ag ymchwil cynulleidfa newydd, a gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol arall sydd ar gael i ni.

1.8 Mae’r rheolau llymach yn amlwg yn chwarae rhan o ran lleihau hyd ac amlder egwyliau hysbysebu. Fodd bynnag, o dan y rheolau presennol, mae’r gwahaniaeth yn nifer yr hysbysebion rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a sianeli masnachol eraill yn gymharol gyfyngedig fel arfer yn ystod tair o’r pum awr rhwng 18:00 a 23:00, gyda’r oriau hynny’n amrywio yn ôl sianel.

1.9 Mae nifer o ffactorau eraill hefyd sy’n berthnasol i ansawdd cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus a’r amgylchedd gwylio. Mae’r rhain yn cynnwys lefelau buddsoddi mewn rhaglenni, disgwyliadau gwylwyr o ran ymyriadau mewn rhai mathau o raglenni a nifer yr ymyriadau mewn rhaglen benodol.

1.10 Mae gennym amrywiaeth o adnoddau rheoleiddio eraill sy’n effeithio ar ansawdd teledu’r DU, gan gynnwys mesurau sy’n benodol i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus fel gosod rhwymedigaethau trwydded. Mae’r amgylchedd cynyddol gystadleuol y mae’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gweithredu ynddo hefyd yn berthnasol, gan fod amrywiaeth eang o wasanaethau bellach yn cystadlu am amser cynulleidfaoedd.

1.11 Yn y cyd-destun hwn, ein safbwynt dros dro yw nad yw’r cyfyngiadau ychwanegol ar hysbysebu sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu cyfiawnhau mwyach nac yn gymesur ar gyfer cyflawni eu diben gwreiddiol. Rydym yn credu y byddai rhoi i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yr un rhyddid o ran munudau hysbysebu ac amserlennu hysbysebion â sianeli masnachol eraill yn briodol ac y byddai adnoddau rheoleiddio eraill yn ddigonol i gynnal y lefelau uchel o ansawdd y mae cynulleidfaoedd yn eu disgwyl gan wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

1.12 Fodd bynnag, rydym yn credu bod tystiolaeth gyfredol i gefnogi cadw’r cyfyngiad ar amlder, fel y trafodir yn ein hystyriaethau o’r effeithiau ar gynulleidfaoedd isod. Rydym wedi penderfynu ymgynghori ar ddau opsiwn ar gyfer newid. Yr opsiwn rydym yn ei ffafrio ar hyn o bryd yw pennu’r un faint o hysbysebion, gan gadw’r cyfyngiad llymach ar amlder ar gyfer sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

1.13 Wrth ddod i’n casgliad dros dro, rydym wedi ystyried effaith debygol y newidiadau arfaethedig hyn ar gynulleidfaoedd a’r farchnad ehangach. Rydym wedi ystyried ein hegwyddor rheoleiddio i geisio’r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni’r amcan polisi. Yn amodol ar ymatebion i’n hymgynghoriad, efallai y byddwn hefyd yn ystyried cynnal y sefyllfa bresennol.

## Mae ein hadolygiad wedi ystyried effeithiau posibl newidiadau i reolau COSTA ar gynulleidfaoedd...

1.14 Wrth ystyried effaith bosibl newidiadau i reolau COSTA ar gynulleidfaoedd, mae'n bwysig nodi bod pob sianel wedi'i chyfyngu i uchafswm o 12 munud o hysbysebu a thelesiopa bob awr. Nid ydym yn cynnig unrhyw newid i'r cyfyngiad hwn, nac i'r rheolau sy'n cyfyngu ar amlder egwyliau hysbysebu mewn rhaglenni newyddion a rhaglenni plant, a ffilmiau.

1.15 Mae'r rheolau llymach presennol ar gyfer sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn golygu na ddylai hysbysebu ar y sianeli hynny fod yn fwy na chyfartaledd o 7 munud yr awr, neu'n 8 munud yr awr ar gyfartaledd rhwng 18:00 a 23:00 – y cyfnod sy'n denu'r rhan fwyaf o wylwyr. Mae sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gallu dangos hyd at neu'n agos at yr uchafswm absoliwt o 12 munud o hysbysebu mewn un neu fwy o'r oriau rhwng 18:00 a 23:00, ar yr amod nad yw'r cyfanswm cyffredinol yn ystod y cyfnod hwnnw yn fwy na 40 munud.

1.16 Byddai dileu'r rheolau llymach hyn yn golygu y byddai sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fel sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar hyn o bryd, yn cael dangos dim mwy na **chyfartaledd** o 12 munud o sbotiau hysbysebu a thelesiopa ar gyfer pob awr o ddarlledu, a dim mwy na 9 munud o hynny ar gyfer hysbysebion.

1.17 Er mwyn deall beth allai cynulleidfaoedd ei feddwl am newidiadau i hysbysebu ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fe wnaethom gomisiynu ymchwil newydd i gynulleidfaoedd. Dywedodd cynulleidfaoedd wrthym fod y dirwedd teledu (sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd) yn ymddangos yn eithaf unffurf. Nid oedd y rhan fwyaf o'r bobl y buom yn siarad â nhw yn ein hymchwil ansoddol ac a holwyd yn ein harolwg omnibws yn ymwybodol o'r gwahaniaethau presennol yn nifer ac amlder yr hysbysebion a ddangosir ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus o'i gymharu â sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Nid oeddent chwaith o reidrwydd wedi sylwi ar gynnydd mewn munudau hysbysebu ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus pan oedd y sianeli hynny'n cael dangos yr un nifer o funudau â sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn dilyn y cyfnod o Alaru Cenedlaethol i adennill munudau coll. Fodd bynnag, roedd ein canfyddiadau'n dangos y gallai cynnydd yn amlder egwyliau hysbysebu ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus fod yn fwy o bryder i gynulleidfaoedd.[1]

1.18 Rydym yn arbennig o ymwybodol, o ystyried y patrymau amserlennu presennol, y gallai'r rheolau arwain at ostyngiad yn swm y cynnwys newyddion ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Y rheswm am hyn yw y byddai'r newid, mewn gwirionedd, yn caniatáu i ddarlledwyr amserlennu mwy o funudau hysbysebu yn eu slotiau min nos, sydd fel arfer rhwng 18:00 a 19:00 a 22:00 a 23:00. Ar hyn o bryd, mae'r slotiau hyn yn cynnwys llai o funudau o hysbysebion.

[1] Gweler troednodyn 56.

1.19 O ystyried effaith bosibl newid y rheolau ar ddarpariaeth newyddion, o dan y ddau opsiwn rydym yn ymgynghori arnynt, byddem yn cadw mesurau diogelu pwysig yn y rheolau COSTA presennol sy’n cyfyngu ar y graddau y gall hysbysebion dorri ar draws rhaglenni newyddion. Mae gennym hefyd adnoddau rheoleiddio eraill sy’n berthnasol i ddiogelu rhaglenni newyddion o ansawdd ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys amodau trwydded ynghylch swm ac amserlennu cynnwys newyddion, a rhwymedigaethau cyffredinol i gyfrannu at gylch gwaith statudol darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

1.20 Mae ein hymchwil cynulleidfaoedd hefyd yn awgrymu, er nad yw cynulleidfaoedd eisiau mwy o hysbysebu ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, eu bod yn fwy tebygol o’i oddef os gellir sicrhau y bydd refeniw hysbysebu ychwanegol yn cael ei gynhyrchu o ganlyniad, ac y bydd hyn yn cael ei fuddsoddi mewn cynnwys. Roedd parodrwydd cynulleidfaoedd i dderbyn mwy o hysbysebion ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn cynyddu pan roeddent yn sylweddoli efallai na fyddai’n tarfu cymaint ar eu profiad gwylio ag yr oeddent wedi’i ofni i ddechrau.

## ... yn ogystal â’r effeithiau posibl ar y farchnad

1.21 Mae dewis eang o opsiynau eraill eisoes ar gael yn lle teledu darlledu llinol, gan gynnwys gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) a sianeli teledu am ddim sy’n cael eu cefnogi gan hysbysebion (FAST) sy’n denu sylw cynulleidfaoedd fwyfwy. Yn y farchnad hynod gystadleuol a deinamig hon, rydym am sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau rheoleiddio ychwanegol ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, y tu hwnt i’r rheini sy’n bodoli ar gyfer gweddill y farchnad, yn angenrheidiol ac yn gyfiawn.

1.22 Rydym yn credu bod dwy brif ffordd y gallai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus elwa o gael gwared ar y cyfyngiadau ychwanegol sy’n berthnasol i’w sianeli o dan COSTA. Yn gyntaf, gyda mwy o funudau ar gael, efallai y gwelwn ostyngiad ym mhris hysbysebion teledu llinol. Yn ei dro, gallai hyn olygu bod y slotiau hyn yn dod yn fwy deniadol na’r rheini ar gyfryngau eraill, gan gynnwys ar-lein. Gallai hyn gyfrannu at hyrwyddo cynaliadwyedd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac, o bosibl, cystadleurwydd hysbysebu ar y teledu yn y dyfodol yn fwy cyffredinol. Yn ail, efallai y bydd budd i rai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, er i ITV yn bennaf o bosibl, gan y gallai mwy o funudau hysbysebu ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus arwain at refeniw uwch. Mae hyn yn debygol o fod yn ailddosbarthu refeniw yn bennaf o sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn hytrach na chynnydd cyffredinol mewn refeniw hysbysebu.

1.23 Nid yw’n bosibl rhagweld gyda sicrwydd beth fyddai’r effaith ar y farchnad, na darlledwyr penodol, pe bai’r rheolau llymach sy’n berthnasol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu diddymu. Cynhyrchodd ein gwaith blaenorol ganlyniadau amhendant, ac nid ydym wedi gweld dadansoddiad gyda chasgliadau mwy pendant ers hynny. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno’n fras bod yr union effeithiau ar y farchnad o ganlyniad i newid yn ansicr iawn.

## Rydym wedi dod i'r casgliad dros dro nad oes cyfiawnhad mwyach am gyfyngiadau hysbysebu llymach ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac nad yw hynny'n gymesur

1.24 Gan ystyried ein hymchwil a'n dadansoddiad cychwynnol, ein barn dros dro yw nad yw'r rheolau llymach yn COSTA yn cael eu cyfiawnhau mwyach nac yn ffordd gymesur o sicrhau ansawdd yr amgylchedd gwylio ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, mae ein hymchwil cynulleidfaoedd yn dangos y gallai fod rhywfaint o fantais o gadw'r rheol amledd llymach ar gyfer sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

1.25 Nid ydym yn credu y byddai dileu'r rheolau COSTA llymach yn effeithio'n sylweddol ar yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i wylwyr, nac yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o ansawdd. Mae gennym hefyd adnoddau perthnasol ac effeithiol eraill i barhau i ddiogelu ansawdd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Er na allwn ragweld yr effaith ar y farchnad gydag unrhyw sicrwydd, mae tebygolrwydd rhesymol, os byddwn yn dileu'r cyfyngiad rheoleiddio hwn, y gallai o leiaf rhai o'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus elwa.

1.26 Bydd cynulleidfaoedd yn parhau i symud i gyfryngau ar-lein ac felly bydd y farchnad hysbysebu yn parhau i esblygu. Rydym am gymell darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni eu cylch gwaith mor effeithiol a chynaliadwy â phosibl, yng ngoleuni'r tueddiadau hyn ar draws y farchnad. Gallai caniatáu ychydig mwy o hyblygrwydd i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wrth amserlennu hysbysebion gryfhau eu sefyllfa fasnachol wrth iddynt barhau i reoli'r broses pontio i fod yn sefydliadau digidol, a byddai'n rhoi mwy o gyfle iddynt foneteiddio eu cynnwys.

## Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

- Rydym yn ymgynghori ar ddau opsiwn: (1) cysoni'r rheolau'n llawn rhwng sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus; a (2) cysoni rhannol gan gadw'r terfyn ar nifer yr egwyliau mewnol a ganiateir mewn rhaglenni ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
- O dan Opsiynau 1 a 2, byddai'r holl sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu'r un cyfyngiadau – ni fyddent yn cael dangos mwy na 12 munud ar gyfartaledd o hysbysebion teledu a slotiau telesiopa am bob awr, ac ni fyddai mwy na 9 munud o hynny'n cael bod yn hysbysebion teledu. Ni fyddai egwyliau hysbysebu sy'n cael eu darlledu yn ystod rhaglenni ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu cyfyngu o ran hyd chwaith.
- O dan Opsiwn 1, byddem yn caniatáu i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus gael yr un nifer o egwyliau mewnol â sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Ni fyddem yn diwygio'r rheol hon o dan Opsiwn 2. Gan fod ein hymchwil cynulleidfaoedd wedi tynnu sylw at bryderon gwylwyr ynghylch cynyddu amlder egwyliau hysbysebu o bosibl, Opsiwn 2 yw'r opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio ar hyn o bryd.
- Byddem yn cadw'r rheolau sy'n berthnasol i bob sianel sy'n cyfyngu ar amlder hysbysebion mewn rhaglenni newyddion a rhaglenni plant, ac mewn ffilmiau o dan y ddau opsiwn.
- Rydym yn croesawu safbwyntiau a thystiolaeth ynghylch ein cynigion gan bartïon sydd â buddiant. Y dyddiad olaf ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 31 Mai 2023. Ein nod yw gwneud penderfyniad a chyhoeddi ein datganiad yn Ch2 2023/24.
- Crynodeb lefel uchel syml yn unig yw'r adran trosolwg hon. Mae'r cynigion rydyn ni'n ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg ni wedi'u nodi yng ngweddill y ddogfen hon.